

Register of key holder details for Audible Intruder Alarms
Cofrestr manylion deiliaid allweddi ar gyfer Larymau Tresbaswyr Clywadwy

Manylion Perchennog y Tŷ/Home Owner's Details

Enw/Name :
Cyfeiriad/Address
Côd Post/Post Code) :
Rhif Ffôn/Telephone Number :
Gwneuthuriad a Model y Larwm/ Make and Model of the Alarm:
Manylion y cwmni sy'n gosod y larwm/ Details of the Company Installing the Alarm

Manylion Deiliad Allweddi / Key Holder's Details

Enw/ Name :
Cyfeiriad/Address:
Côd Post/Post Code
Rhif Ffôn/Telephone Number:
Rhif Ffôn Symudol/Mobile Telephone Number :

Dychwelwch y ffurflen hon i'r cyfeiriad canlynol Cyngor Sir Caerfyrddin Yr Adran Cymunedau Adain Diogelu'r Amgylchedd Neuadd y Dref Rhydaman Heol Iscennen Rhydaman SA18 3BE	Return this form to the following address -: Carmarthenshire County Council Department of Communities Environmental Protection Section Ammanford Town Hall Iscennen Road Ammanford SA18 3BE
---	--

Sŵn o Larymau Tresbaswyr

Rydym i gyd yn ymwybodol o fanteision larwm tresbaswyr clywadwy sy'n diogelu ein heiddo. Fodd bynnag, gall larymau lladron diffygiol achosi niwsans sŵn difrifol ac estynedig. Mae'r Cyngor yn aml yn derbyn cwynion am larymau sy'n seinio dro ar ôl tro a'r rhai nad ydynt yn tawelu ar ôl cyfnod byr.

Os oes larwm tresbaswyr clywadwy ar eich eiddo, mae gennych gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau nad yw'n achosi niwsans sŵn neu annifyrrwch i'ch cymdogion.

Beth yw'r sefyllfa gyfreithiol?

Mae gan awdurdodau lleol bwerau i ddatrys problemau sŵn yn ymwneud â larymau tresbaswyr clywadwy sy'n ddiffygiol neu sy'n seinio heb angen. Os bydd swyddogion yn penderfynu bod y sŵn o'ch larwm yn achosi niwsans statudol, yna byddwn yn cyflwyno hysbysiad atal dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Bydd yr hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i'r perchennog dawelu'r sŵn a chymryd camau i sicrhau nad yw'r niwsans yn digwydd eto. Wrth reswm, os yw'r eiddo'n wag ni fydd y perchennog yn gallu cydymffurfio â'r hysbysiad, ond yn ffodus mae gennym bwerau ychwanegol i weithredu'n ddiodyn.

Beth mae weithredu'n ddiodyn yn ei olygu?

Os yw'r larwm yn parhau i seinio ar ôl i gyfnod yr hysbysiad ddod i ben ac nad oes unrhyw arwydd na thebygolrwydd y bydd y preswlydd yn dychwelyd i'r eiddo nac unrhyw gofnod o ddeiliad allweddi enwebedig, yna gellir ystyried gweithredu'n ddiodyn.

Bydd swyddogion yn gwneud cais am warrant gan y Llys Ynadon, sy'n caniatáu i'r swyddog gael mynediad i'ch eiddo, ac os oes angen, trwy rym. Yn nodweddiadol, bydd y Cyngor yn cysylltu â chwmni larymau arbenigol a saer cloeon er mwyn cael mynediad i'ch eiddo ac yna'n datgysylltu'r canwr allanol. Bydd yr awdurdod yn adennill unrhyw dreuliau rhesymol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu mewn cysylltiad â thawelu'r larwm gan yr unigolyn personol.

Hefyd, gallai unrhyw achosion o dorri'r hysbysiad atal sŵn a gyflwynir gan y Cyngor arwain at achos erlyn lle mae dirwyon diderfyn ar gyfer eiddo preswyl ac eiddo masnachol.

Manylion deiliaid allweddi

Os oes gennych larwm tresbaswr clywadwy a'ch bod wedi cofrestru deiliaid allweddi enwebedig naill ai gyda'r Heddlu, y Cwmni Larymau neu'r Cyngor, yna yn y lle cyntaf byddwn yn ceisio cysylltu â nhw i agor yr adeilad ac analluogi a / neu ailosod y larwm cyn ystyried unrhyw bwerau ffurfiol. Felly mae'n llawer gwell eich bod yn rhoi'r manylion hyn i'r Cyngor er mwyn osgoi cymryd camau o'r fath.

I gofrestru eich deiliaid allweddi ar gyfer eich larwm lladron, llenwch y ffurflen hon a'i dychwelyd i'r cyfeiriad drosodd. Bydd manylion y deiliaid allweddi yn cael eu trin yn gyfrinachol a dim ond mewn argyfwng y cânt eu defnyddio.